

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Heulwen Roberts (Henllan) fore dydd Iau. Er iddi fod yn yr ysbyty ers rhai wythnosau, bu'n siriol trwy'r cyfan a'i gwên a'i chroeso bob amser yn ei gwneud yn bleser i ymweld â hi. Cydymdeimlwn yn gywir iawn ag Alys, Esther, Nerys ac Arwyn a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Mae Doreen Evans (Tanyfron) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau ati, a hefyd at Nesta Davies (Cefn Meiriadog) fydd yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen ddechrau'r wythnos. Gweddiwn y bydd y cwbl yn mynd yn ddi-drafferth iddi ac y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle bydd yn profi gofal a daioni Duw yn ei hamgylchynu. Yr un modd, cyflwynwn eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda yn dyner iawn i'r Arglwydd. Gweddiwn y byddant oll yn profi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn, ac y daw adferiad iechyd yn fuan iawn.
- Parhawn i gofio hefyd am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mrs Morfydd Williams (Southern House); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); a Mrs Enid Jones (Plas Ogwen). Hyderwn eu bod hwythau'n profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.
- Llongyfarchiadau i Sion Ilan Davies (Nantglyn) a Ffion ar eu priodas yn Eglwys Farmor, Bodelwyddan y penwythnos hwn. Yn yr un modd, dymunwn yn dda i Gareth Evans (Tanyfron) a Lowri a fydd yn priodi ym Metws Gwerfyl Goch ddydd Gwener nesaf. Bendithion lu iddynt i'r dyfodol.

I ddod

- **Tyfu Arweinwyr** (sesiynau ar rannu'n ffydd) nos Fawrth, Mai 22ain yng Nghapel Penybryn, Wrecsam. Mwy o fanylion gan Rhodri.
- Y sesiwn olaf o'r drafodaeth ar y thema "**Ymestyn Allan**" yn Ffestri Capel Lôn Swan, Dinbych nos Iau, Mai 24ain am 7.00 gyda'r Parchg Athro Euros Wyn Jones yn agor y drafodaeth. Croeso cynnes i bawb.
- **Adnabod Dawn** – cynhelir yr ail sesiwn yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol ar nos Fercher, Mai 30ain yn y Granar, Llansannan am 7.30. Y sesiynau dilynol ar Mehefin 19eg, Gorffennaf 3ydd a'r 17eg.
- **Y Gairathon** (o'r Bala i Lanfihangel y Pennant) dydd Sadwrn, Mehefin 9fed. Cysylltwch ag Elen Elias (01492 543320/07760 452145) os oes gennych ddiddordeb i redeg rhywfaint o'r daith. Manylion yr oedfa a'r trefniadau eraill i ddilyn.
- **Diwrnod Genod (16+)** yng Ngholeg y Bala nos Wener a dydd Sadwrn, Mehefin 15-16eg. Cyfle i ymlacio, rhannu cymdeithas a dysgu. Mwy o fanylion trwy ffonio Angharad Clwyd: (01678) 520565.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13eg Mai 2012

Cofiwch am y ddarlith ar
William Salesbury yn Ffestri
Llansannan nos Iau am 7.30.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb sy'n gweithio mor galed o flwyddyn i flwyddyn i hyrwyddo'r wythnos gan helpu i godi miloedd o bunnoedd tuag at leddfau poen ac anghyfiawnder.

Cawsom gychwyn da i'r gyfres ar Nehemeia hefyd nos Sul dan arweiniad Rhodri. Tybed beth sy'n debyg rhwng y gwaith a gafodd Nehemeia i'w wneud i ail-godi muriau Jerwsalem a gwaith Cymorth Cristnogol yn Sierra Leone eleni? Wel, yn syml, byrdwn y ddwy stori ydi bod angen cael y taclau iawn i wneud y job yn iawn. Yn achos Nehemeia – cael offer ac adnoddau i adeiladu wal, ac yn achos pobl Gbap, cael yr help a'r adnoddau iawn i ail-adeiladu eu pentref a'u ffermydd i gynhyrchu bwyd a chynhaliaeth. Dyma addasiad o'r hyn a ysgrifennwyd gan Cymorth Cristnogol:

"Mae pobl Gbap, sydd yn Sierra Leone, gorllewin Affrica, wedi dychwelyd i'w tref fach ar ôl y rhyfel cartref (a ddaeth i ben ddeng mlynedd yn ôl). Ond roedd tasg a oedd yn ymddangos yn gwbl amhosibl yn eu hwynebu. Roedd eu cnydau, eu ffermydd a'u hadeiladau wedi eu dinistrio ac, er bod y tir yn ffrwythlon, nid oedd ganddynt hadau nag offer i'w ffermio. Golygodd hyn nad oedd digon o fwyd i'r bobl i'w fwyta.

Mae Patricia, 12 oed, yn byw ac yn mynd i'r ysgol yn Gbap. Mae hi ym mlwyddyn olaf yr ysgol gynradd ac mae'n gobeithio parhau gyda'i haddysg. Ei breuddwyd yw y bydd hi, rhyw ddydd, yn arlywydd benywaidd cyntaf Sierra Leone. Ond, nid yw astudio wedi bod yn hawdd iddi hi gan fod adeilad ysgol Gbap yn hen ac wedi cracio ac roedd mewn perygl o syrthio. Pan fyddai'n bwrw glaw fe fyddai'r to'n gollwng ac nid oedd digon o seddau i bawb gan fod y morgrug gwyn (termites) wedi bwyta'r meinciau. Nid oes toiledau ac roedd ieir yn rhedeg o amgylch yr ystafell ddosbarth. Roedd nifer o'r rhieni'n cadw'r plant adref o'r ysgol gan eu bod yn credu fod yr adeilad yn rhy beryglus.

Ond rhoddodd Eglwys Fethodistaidd Sierra Leone (EFSL), partner Cymorth Cristnogol, offer, hadau a hyfforddiant i bobl Gbap. Bellach mae'r gymuned wedi ffurfio pwyllgor datblygu pentref (rhywbeth tebyg i gyngor ysgol neu bwyllgor eglwys) ac maent wedi rhannu offer, sgiliau a llafur i dyfu bwyd. Mae'r cydweithio wedi rhoi hyder i'r pwyllgor datblygu pentref i ofyn i'r llywodraeth am arian i adeiladu ysgol newydd yn Gbap. Mae pobl o bob oed wedi cydweithio i adeiladu'r ysgol newydd."

Ni ein hunain yw'r 'offer' mae Duw yn ei ddefnyddio yn ei law a thrwy ei Ysbryd i godi muriau ei Eglwys – dyna ryfeddod ynddo'i hun! Rhan o godi teyrnas Dduw yn y byd yw diogelu fod gan Patricia ysgol a hawl i'w breuddwydion, a bod ganddi fwyd yn ei bol a ffydd yn Iesu yn ei chalon. Diolch eto am eich holl ymdrechion yn enw Crist.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. *Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274) neu Hafwen (813445) cyn nos Fawrth, os gwelwch yn dda.*
- Mercher • **Adnabod Cymdeithasol** - Taith gerdded hamddenol. Cyfarfod yn y maes parcio ar lan y môr ym Mhensarn am 6.30. Croeso i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- **Darlith ar William Salesbury - ei gyfnod a'i gyfraniad"** yn Ffestri Llansannan am 7.30 gyda Dr Iwan Rhys Edgar, Pwllheli yn darlithio. Croeso cynnes i bawb.
- Gwener • **C.I.C.** (ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd). Gan mai gemau dŵr fydd y tro hwn, dewch i'r cae pêl-droed yn Llansannan erbyn 7.30. Byddai'n syniad da i chi ddod â dillad sbar hefo chi!
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol yn yr Eglwys am 11.00 a bydd cyfeiriad at y gwaith hefyd yn Oedfa'r Fro yng Nghapel Coffa Henry Rees am 6.00.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Saron am 2.00 gyda Huw a Haf Evans, Tan y Graig, Cefn Meiriadog yng ngofal y gwasanaeth. Bydd y casgliad yn mynd at Gronfa Nyrsus Marie Curie.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch John Watkin yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Saron am 2.00 gyda Huw a Haf Evans, Tan y Graig, Cefn Meiriadog yng ngofal y gwasanaeth. Bydd y casgliad yn mynd at Gronfa Nyrsus Marie Curie. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Mai 27ain **Rhaghysbysiad:** Os bydd yr Henaduriaeth wedi cydsynio â'r cais, bydd aelodau Capel Saron yn ethol blaenoriaid yn oedfa'r **bore** (sylwer ar y newid).

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00, gyda phlant Henllan a Groes yn cyfarfod yn Groes. Yn Henllan, bydd yr Ysgol Sul am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn y Capel am 2.00 gyda'r Parch Tom Williams yn gwasanaethu a phaned i ddilyn.
- Sul nesaf Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Saron am 2.00 gyda Huw a Haf Evans, Tan y Graig, Cefn Meiriadog yng ngofal y gwasanaeth. Bydd y casgliad yn mynd at Gronfa Nyrsus Marie Curie. Bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd oedfa Cymorth Cristnogol undebol i'r teulu dan arweiniad Rhodri Glyn yn Llanefydd am 10.00. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau